EITEM RHIF 2 AR YR AGENDA

CYFARFOD BWRDD GWEITHREDOL ERW

27 MAWRTH 2015

MYNEGAI RHAGORIAETH **Diben:** Rhannu gwybodaeth am y Mynegai Rhagoriaeth.
ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY'N OFYNNOL: Cytuno ar argymhellion o ran 2015-18.
RHESYMAU:

Awdur yr Adroddiad: Leyton Jones	Dynodiad: Ymgynghorydd Her	Rhif Ffôn 07785 373 882 E-bost: Leyton.Jones@swansea.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL
BWRDD GWEITHREDOL ERW
27 MAWRTH 2015

Prosiect 50 - 90 / Deialog

CRYNODEB BYR O DDIBEN YR ADRODDIAD

Yn yr adroddiad hwn, trafodir y cyfeiriadur perfformiad rhanbarthol sy'n galluogi ysgolion i chwilio am bartneriaid datblygu priodol.

- Daeth Prosiect 50-90 i'r amlwg yn estyniad o'r gwaith a wnaed gydag ysgolion uwchradd yn Abertawe. Roedd dadansoddiad perfformiad yn adlewyrchu canlyniadau arolygu a oedd yn perfformio'n llawer gwell na'r normau cenedlaethol. Roedd y perfformiad yn y dangosydd L2 Cynhwysol yn grwpio'r ysgolion yn dri gwahanol amcan – y rheini nad aethant eto heibio 50, 70 ac 80. Pan drafodwyd ymhellach gyda'r ysgolion, nodwyd mai prin oedd y gwaith ysgol i ysgol strwythuredig a oedd yn seiliedig ar wybodaeth gywir – yn y grŵp o ysgolion â'r perfformiad uchaf yng Nghymru, nid oedd unrhyw ffordd strwythuredig o nodi, rhannu a defnyddio arfer gorau.

Camau a gymerwyd hyd yma

- Cytunodd yr ysgolion i gwblhau cyfeiriadur perfformiad a rhannu hwn ar draws y grŵp ysgolion.
- Cynhaliwyd cyfres o brosiectau datblygu ysgol i ysgol, gan ryngweithio gydag ysgolion a oedd wedi nodi'u hunain yn rhai ag arfer rhagorol.
- Sylwodd y Bwrdd Cyflawni ar y cysyniad, a arweiniodd at ailwampio'r cyfeiriadur i'w gysoni â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin.
- Ymgynghorwyd â grwpiau ysgol uwchradd ledled ERW a chytunasant i gymryd rhan yn y prosiect.
- Datblygwyd Deialog, cymhwysiad ar y we (a fydd yn cael ei gyflwyno'n fyw yn y cyflwyniad), sy'n cynnwys yr wybodaeth a gyflenwyd gan ysgolion hyd yma. Mae'n gweithio fel system baru i ysgolion sy'n chwilio am bartneriaid â nodweddion penodol. Gall ysgolion chwilio yn ôl agweddau ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin a/neu eiriau allweddol ac ar draws ysgolion sydd â nodweddion ieithyddol, daearyddol, economaidd-gymdeithasol neu eraill penodol.

CAMAU SYDD AR GAEL A'U MANTEISION A'U HANFANTEISION

- Sefydlu cymhwysiad Deialog yn llwyfan gwybodaeth am ddarpariaeth ac arweinyddiaeth ysgolion y rhanbarth. Defnyddio Ymgynghorwyr Her ac ysgolion i gynnal y gronfa wybodaeth. Bydd cyfanrwydd yr wybodaeth a gedwir yn bwysig er mwyn creu a chynnal ymddiriedaeth broffesiynol.

- Estyn cwmpas Prosiect Deialog i gynnwys ysgolion cynradd.

- Datblygu swyddogaeth yn rhan o Deialog i gynnal gofynion eraill sy'n seiliedig ar wybodaeth dechnoleg ranbarthol. Er enghraifft, gellid cynnwys yr arf arsylwi gwersi yng nghymhwysiad Deialog gyda chyfraniad datblygu rhesymol a darparu ar gyfer arf diogel, wedi'i ddilysu gan ddefnyddwyr, na fyddai'n mynnu fawr iawn o gost weinyddu i'w gynnal ledled y rhanbarth.

- Gellir ychwanegu fframweithiau perfformiad ysgol ychwanegol at Deialog e.e. perfformiad adrannol yn unol â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin neu arall.

- Ychwanegu Deialog at strategaeth rheoli gwybodaeth y rhanbarth.

A OES ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	Nac Oes

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anrhefn a Chydraddoldeb **DIM**	Cyfreithiol **OES**	Cyllid **OES**	Materion Rheoli Risg **OES**	Goblygiadau Staffio **OES**

1. Cyfreithiol

   Mae cytundeb rhannu gwybodaeth yn berthnasol i'r protocol presennol ar lefel ALl. Nid oes unrhyw wybodaeth lefel dysgwr yn cael ei storio yn y cymhwysiad.

2. Cyllid

   Gan ddibynnu ar ddefnydd pellach o'r cymhwysiad, bydd gofyn ystyried cefnogi datblygu swyddogaeth ychwanegol.

   Efallai bydd gofyn rhywfaint o gyllid i gynnal swyddogaeth gefnogi lefel isel; ar ei ffurf gyfredol, prin iawn fydd y cymorth y bydd ei angen ar y cymhwysiad y tu hwnt i'r sefydlu cychwynnol i weddill yr ysgolion yn ERW.

3. Rheoli Risg

   1. Mae'r datblygiad wedi'i gwblhau gan adran TG ALl Abertawe; efallai y bydd cyllid sector cyhoeddus yn effeithio ar yr adnodd hwn o ran argaeledd cychwynnol neu ei osod ar brosiectau eraill. Dylid ystyried diswyddiad – mae angen i'r cymhwysiad gael ei ddogfennu'n dechnegol er mwyn sicrhau bod modd ei drosglwyddo i swyddogaeth ddatblygu wahanol os oes gofyn.

   2. Mae'r datblygiad wedi'i oedi'n sylweddol – y nod gwreiddiol oedd cwblhau Deialog erbyn mis Rhagfyr 2014.

   3. Mae arweinydd cyfredol y prosiect yn gadael y swydd Ymgynghorydd Her. Mae angen lliniaru hyn.

4. Goblygiadau Staffio

   1. Bydd arweinydd cyfredol y prosiect yn gadael swydd yr Ymgynghorydd Her yn fuan. Bydd angen dyrannu cyfrifoldeb am y prosiect.

   2. Fel yr amlinellwyd, gallai'r cymhwysiad cyfredol fod yn rhan sylweddol o strategaeth rheoli gwybodaeth y rhanbarth ar gyfer gwybodaeth ysgolion. Os felly, mae gofyn ystyried strategaeth tymor byr a thymor canolig a bydd gofyn manyleb ymarferol ar honno a chyllid i'w datblygu.

YMGYNGHORIADAU

Rhaid cynnwys yma fanylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at wybodaeth **Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:** **DISGRIFIR Y RHAIN ISOD**		
Teitl y Ddogfen	**Rhif Cyf. y Ffeil**	**Ymhle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld**